CPS

Polisi ar gyfer Erlyn Troseddau yn erbyn Pobl Hŷn

Polisi ar gyfer Erlyn Troseddau yn erbyn Pobl Hŷn

Beth a olygwn gyda'r term "pobl hŷn" a pam fod gennym bolisi ar eu cyfer?

Golyga "pobl hŷn" bobl dros 60 oed. Mae sefydlu polisi yn ein helpu i ystyried effaith y drosedd ar yr unigolyn ac effaith unrhyw achosion llys arnynt.

Er nad yw nifer o bobl hŷn yn fregus, agored i niwed, neu angen cymorth mewn unrhyw fodd, nac yn ystyried eu hunain felly, mae rhai pobl hŷn yn dioddef problemau gyda'u hiechyd corfforol neu feddyliol ac efallai y bydd rhai angen dibynnu ar eraill am gymorth.

Felly mewn achosion perthnasol byddwn yn gweithio'n agos â'r gwasanaethau cymdeithasol, cyrff rheoleiddio gofal cymdeithasol ac archwilio iechyd, meddygon teulu, ysbytai ac eiriolaeth / gwasanaethau arbenigol eraill ar gyfer pobl hŷn, neu deuluoedd, yn ogystal â'r unigolyn dan sylw.

Pa fath o gamdriniaeth allai fod yn drosedd?

Mae'r tabl ar ddiwedd y daflen hon yn rhoi enghreifftiau o ymddygiad allai, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gyfateb i drosedd.

Os oes gennyf broblemau gyda lleferydd a chof, a fydd fy achos yn cael ei ollwng?

Na fydd. Efallai bod gan rai pobl hŷn sy'n dioddef o ddementia neu salwch arall sy'n gysylltiedig ag oed allu meddyliol ansefydlog neu broblemau cyfathrebu. Nid ydym yn tybio dim am eu dibynadwyedd neu hygredded. Byddwn yn ymgynghori â nhw, eu perthnasau, gofalwyr neu arbenigwyr meddygol i ystyried beth ellir ei wneud i helpu'r unigolyn hwnnw i roi tystiolaeth.

Os na all rhywun gymryd rhan yn yr achos troseddol, er enghraifft, hyd yn oed gyda'r gefnogaeth briodol ni allant ddeall yr wybodaeth a roddir iddynt neu gofio'r wybodaeth honno, byddwn yn gweithio gyda'r heddlu i weld pa dystiolaeth arall allai fod ar gael i brofi'r achos mewn llys.

Beth mae'r CPS yn ei wneud?

Y CPS yw'r prif wasanaeth erlyn ar gyfer Cymru a Lloegr, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus. Er ein bod yn gweithio'n agos â'r heddlu, rydym yn annibynnol arnynt. Mae'r heddlu'n gyfrifol am ymchwilio troseddau a chasglu'r dystiolaeth. Mae gennym gyfrifoldeb dros benderfynu (ym mhob achos heblaw'r rhai lleiaf) p'un a ddylid cyhuddo'r sawl a ddrwgdybir o drosedd ac, os felly, gyda pha gyhuddiad neu gyhuddiadau.

Sut mae'r CPS yn penderfynu p'un a ddylid cyhuddo rhywun?

Rydym yn gweithredu'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron. Er mwyn sicrhau erlyniad, rhaid bod digon o dystiolaeth i allu sicrhau rhagolwg realistig o euogfarn. Os nad yw'r achos

yn pasio'r cam tystiolaethol hwn, ni ddylai fynd yn ei flaen, waeth pa mor sensitif neu ddifrifol ydyw.

Os nad yw'r achos yn pasio'r cam tystiolaethol, yna rhaid i ni benderfynu a oes angen erlyniad er lles y cyhoedd (y cam lles y cyhoedd). Rydym yn ystyried unrhyw drosedd sy'n seiliedig ar elyniaeth, oherwydd anabledd canfyddedig neu wirionedd, fel un fwy difrifol. O ganlyniad, bydd fel arfer er lles y cyhoedd i erlyn mewn achosion casineb anabledd.

Beth os nad ydw i eisiau mynd i'r llys?

Mae'ch barn chi fel dioddefydd y drosedd yn bwysig wrth benderfynu p'un a ddylai achos fynd yn ei flaen neu beidio, ond nid dyma'r unig ffactor. Rydym yn erlyn achosion ar ran y cyhoedd yn gyffredinol ac nid er budd unrhyw unigolyn penodol yn unig.

Os bydd dioddefydd wedi tynnu cefnogaeth dros erlyn yn ôl, yna mae'n ddyletswydd arnom i ganfod pam. Byddwn yn edrych yn fanwl ar bob opsiwn ac yn cynnig pa bynnag gymorth y gallwn trwy'n Hunedau Gofal Tystion cyn penderfynu a ddylid mynd ymlaen i erlyn neu beidio. Yn gyffredinol, po fwyaf difrifol yw'r achos, y mwyaf y bydd er lles y cyhoedd i fynd ymlaen ag erlyniad, hyd yn oed os dywed y dioddefydd nad ydynt am i ni wneud.

Beth yw gwaith Unedau Gofal Dioddefwyr?

Mae gennym Unedau Gofal Tystion ym mhob Maes CPS, yn cael eu rhedeg ar y cyd gan yr heddlu a'r CPS. Mae Swyddogion Gofal Tystion yn bwynt cyswllt a chefnogaeth bersonol ar

gyfer pob tyst i'w helpu i roi'r dystiolaeth orau. Bydd gan ddioddefydd trosedd Swyddog Gofal Tyst i reoli eu gofal o'r cyhuddiad hyd at ddiwedd yr achos.

Pa gefnogaeth fyddaf yn ei derbyn yn y llys?

Gallai cefnogaeth gynnwys, er enghraifft, trafnidiaeth i'r llys ac oddi yno; rhoi tystiolaeth trwy ddolen deledu fyw yn hytrach nag yn y llys; gan sicrhau y caniateir amser ar gyfer cymryd meddyginiaeth; holi cwestiynau mewn modd sy'n hawdd i chi ddeall neu gael cyfryngwr i esbonio'r cwestiynau a ofynnir a'r atebion a roddir.

Bydd erlynydd y CPS sy'n cyflwyno'r achos yn cyflwyno ei hun i chi ac yn ateb unrhyw gwestiynau cyffredinol sydd gennych. Os bydd raid i dystion aros, byddwn yn sicrhau eu bod yn cael gwybod pam fod oedi a faint o amser a amcangyfrifir y bydd raid iddynt aros i roi tystiolaeth.

Ble bynnag fo'n bosibl, byddwn yn ceisio sicrhau fod cyfleusterau aros ar wahân ar gael ar gyfer tystion yr erlyniad fel nad oes raid i dystion gymysgu gyda'r diffynnydd neu deulu neu ffrindiau'r diffynnydd.

Mae'r cyhoeddiadau canlynol yn rhoi rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut mae'r erlyniad yn gwneud penderfyniadau a beth all dioddefwyr a thystion ddisgwyl gan y system gyfiawnder troseddol –

- Polisi Erlyn Troseddau yn erbyn pobl hŷn y CPS
- Y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron
- Adduned yr Erlynwyr
- Y Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Trosedd (Cod y Dioddefydd)

Mae'r cyhoeddiadau hyn yn ddogfennau cyhoeddus ac maent ar gael ar wefan y CPS: *www.cps.gov.uk*

Neu gellir gofyn am gopïau gan:
CPS Communications Branch, 50 Ludgate Hill,
London EC4M 7EX
Ffôn: 020 7796 8442
Ffacs: 020 77968351
E-bost: publicity.branch@cps.gsi.gov.uk

Mae cyfieithiadau i ieithoedd eraill, a chopïau ar dâp sain ar gael.

Gellir gofyn am gymorth neu gyngor gan:

Action on Elder Abuse
www.elderabuse.org.uk
Llinell Gymorth 0808 808 8141
Mae Action on Elder Abuse yn elusen sy'n gweithio i amddiffyn ac atal camdriniaeth pobl hŷn sy'n agored i niwed. Dyma'r unig Linell Gymorth yn y Deyrnas Unedig ar gyfer unrhyw un sy'n pryderu am gamdriniaeth rhywun hŷn. Bydd atebwyr cymwysedig ar gael i gynnig cefnogaeth, gwybodaeth ac awgrymu sut i weithredu i daclo camdriniaeth.

Cymorth i Ddioddefwyr

www.victimsupport.org.uk
Llinell gefnogaeth 0845 303 0900
Cymorth i Ddioddefwyr yw'r elusen genedlaethol sy'n helpu pobl wedi eu heffeithio gan drosedd. Mae'r sefydliad yn darparu cymorth rhad ac am ddim a chyfrinachol i helpu dioddefwyr i ddelio â'u profiad, p'un a ydynt yn adrodd am drosedd neu beidio.

Age Concern England

www.ageconcern.org.uk

Age Concern Cymru

www.accymru.org.uk
Mae Age Concern yn cefnogi pawb dros 50 yn y Deyrnas Unedig. Gellir dod o hyd i fanylion canghennau lleol ar ei wefan.

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

www.equalityhumanrights.com
Prif Swyddfa Lloegr – Switsfwrdd 0845 6046610
Llinell destun 0845 604 6620
Cymru – Switsfwrdd 0292 0663710
Llinell Gymorth a Chyngor 0845 604 8810
Llinell destun a dwyieithog 0845 604 8820
Yr Alban – Prif Switsfwrdd 0845 604 5510
Llinell destun 0845 604 5520

Cyngor Pobl Anabl y Deyrnas Unedig (UKDPC)

www.bcodp.org.uk
Ffôn 01332 29555
Ffacs 01332 295580
Mae UKDPC yn sefydliad mantell sy'n cynrychioli oddeutu 80 o sefydliadau wedi eu rhedeg a'u rheoli gan bobl anabl i hyrwyddo cydraddoldeb a chyfranogiad llawn o fewn cymdeithas.

MIND

www.mind.org.uk
Ffôn 020 8519 2122
Ffacs 020 8522 1725
Mae MIND yn gweithio i greu gwell bywyd i bawb gyda phrofiad o drallod meddyliol trwy ddatblygu barn, anghenion ac uchelgeisiau pobl gyda phroblemau iechyd meddwl.

VOICE UK

www.voiceuk.org.uk
Ffôn 01332 295775
Ffacs 01332 295670
Mae Voice UK yn cefnogi pobl gydag anableddau dysgu a grwpiau eraill agored i niwed sydd wedi dioddef troseddau neu gamdriniaeth ac yn cynnig cefnogaeth i deuluoedd, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol.

Ymddygiad troseddol

Rho'r tabl isod enghreifftiau o ymddygiad a allai fod yn droseddol, yn ddibynnol ar yr amgylchiadau.

ENGHREIFFTIAU O YMDDYGIADAU	ENGHREIFFTIAU O DROSEDDAU POSIBL / DEDDFWRIAETH BERTHNASOL
Taro, slapio, gwthio, cicio	Ymosodiad cyffredin a.39 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988; anaf corfforol gwirioneddol a.47 Deddf Troseddau yn erbyn yr Unigolyn 1861; anaf corfforol difrifol / gyda bwriad a.20 a 18, Deddf Troseddau yn erbyn yr Unigolyn 1861
Camddefnyddio meddyginiaeth i reoli ymddygiad	Ymosodiad; carchariad ar gam; defnydd o gyffuriau / ddeunydd neu beth syfrdanol / llethol gyda'r bwriad o gyflawni trosedd dditiadwy a.22 Deddf Troseddau yn erbyn yr Unigolyn 1861 (OAPA); gwenwyno gyda'r bwriad o anafu, dramgwyddo neu aflonyddu, a.23/24 OAPA; gweinyddu meddyginiaethau yn anghyfreithlon a.58 Deddf Meddyginiaeth 1968; effeithio'n niweidiol ar gyfansoddiad cynnyrch meddyginiaethol, a.63 Deddf Meddyginiaeth 1968; methu cydymffurfio ag amodau / torri rheoliadau a.24, 25 Deddf Safonau Gofal 2000
Ataliad amhriodol	Carcharu ar gam; ymosodiad cyffredin; ABH; GBH; tagu a.21OAPA; herwgipio; methu cydymffurfio ag amodau / torri rheoliadau a.24, 25 Deddf Safonau Gofal 2000

ENGHREIFFTIAU O YMDDYGIADAU	ENGHREIFFTIAU O DROSEDDAU POSIBL / DEDDFWRIAETH BERTHNASOL
Cosbau amhriodol	Carcharu ar gam; ymosodiad; camdriniaeth / esgeuluso bwriadol a.44 Deddf Galluedd Meddyliol 2005; camdriniaeth / esgeuluso claf yn fwriadol a.127 Deddf Iechyd Meddwl 1983; methu cydymffurfio ag amodau / torri rheoliadau a.24, 25 Deddf Safonau Gofal 2000
Ymosodiadau rhywiol, gweithred rywiol ble nad yw'r dioddefydd wedi cydsynio neu'n methu cydsynio neu os rhoddwyd pwysau i gydsynio	Troseddau a ddigwyddodd wedi Mai 2004: Trais, treiddiad, ymosodiad, achosi gweithgaredd rhywiol heb gydsyniad a.1-4 Deddf Troseddau Rhywiol (SOA) 2003; gweithgaredd rhywiol gydag unigolyn ag anhwylder meddyliol yn amharu ar ddewis neu achosi, annog, ymgymryd ag ym mhresenoldeb / achosi i wylio, annog trwy dwyll, bygythiad neu gymhelliant a.30-37 SOA 2003; troseddau rhywiol gan weithwyr gofal yn erbyn unigolyn gydag anhwylder meddyliol yn amharu ar ddewis, achosi, annog, ymgymryd ag ym mhresenoldeb / achosi i wylio a.38-41 SOA 2003; gweinyddu sylwedd gyda bwriad a.61; dinoethiad a.66; voyeuriaeth a.67; gweithgaredd rhywiol mewn toiled cyhoeddus a.71 SOA 2003 Cyn Mai 2004 Deddf Troseddau Rhywiol, 1956, troseddau a chyfathrach rywiol anghyfreithiol gyda chleifion / preswylwyr yn dioddef anhwylder meddyliol a.128 Deddf Iechyd Meddwl 1959

ENGHREIFFTIAU O YMDDYGIADAU	ENGHREIFFTIAU O DROSEDDAU POSIBL / DEDDFWRIAETH BERTHNASOL
Bygythiad o niwed neu adael	Bygythiadau i ladd a.16 OAPA; blacmel a.21 Deddf Dwyn 1968; ymosodiad cyffredin; camdriniaeth / esgeuluso bwriadol a.44 Deddf Galluedd Meddyliol 2005; camdriniaeth / esgeuluso claf yn fwriadol a.127 Deddf Iechyd Meddwl 1983
Amddifadu o gysylltiad, ynysu neu dynnu yn ôl o wasanaethau neu rwydweithiau cefnogol	Carcharu ar gam; camdriniaeth / esgeuluso bwriadol a.44 Deddf Galluedd Meddyliol 2005; camdriniaeth / esgeuluso claf yn fwriadol a.127 Deddf Iechyd Meddwl 1983; methu cydymffurfio ag amodau / torri rheoliadau a.24, 25 Deddf Safonau Gofal 2000
Darostyngiad, brawychiad, blacmel emosiynol, camdriniaeth lafar, gweddi neu regi ar rywun	Ofn trais a.4 Deddf Trefn Gyhoeddus 1986; aflonyddu, braw neu drallod bwriadol a.4A POA; aflonyddu, braw neu drallod a.5 POA; ymddygiad yn cyfateb i aflonyddu / achosi rhywun i fod yn ofnus a.1 a 4 Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997; aflonyddu ar rywun yn eu cartref a.42A Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001; blacmel a.21 Deddf Dwyn 1968; ymosodiad cyffredin

ENGHREIFFTIAU O YMDDYGIADAU	ENGHREIFFTIAU O DROSEDDAU POSIBL / DEDDFWRIAETH BERTHNASOL
Dwyn, twyll, ymelwa, pwysau mewn cysylltiad ag ewyllysiau, pwerau atwrnai, trafodion ariannol, neu gamddefnydd neu gam feddiannu eiddo, budd-daliadau neu feddiannau	Dwyn / lladrata a.1 ac 8 Deddf Dwyn 1968. Blacmel a.21 Deddf Dwyn; Twyll drwy gam gynrychioli, drwy fethiant i ddatguddio gwybodaeth, trwy gamddefnydd o safle a.2, 3 a 4 Deddf Twyll 2007; ffugiad a.25 Deddf Cardiau Adnabod 2006 a Deddf Ffugio a Dynwared 1981
Anwybyddu anghenion gofal meddygol neu gorfforol, methu darparu mynediad i wasanaethau iechyd priodol, atal meddyginiaeth, maeth neu wresogi digonol, anghenion corfforol heb eu diwallu megis dillad gwely neu ddillad wedi'u trochi mewn troeth neu ysgarthion, dannedd yn pydru, ewinedd wedi tyfu'n hir.	Carcharu ar gam; Esgeuluso bwriadol neu gam-drin unigolyn gyda diffyg gallu meddyliol a.44 Deddf Galluedd Meddyliol (MCA) 2005; esgeuluso bwriadol neu gam-drin cleifion gydag anhwylder meddyliol mewn ysbyty neu gartref nyrsio neu dan warchodaeth neu ofal rhywun a.127(1) a (2) Deddf Iechyd Meddwl 1983; methiant i gydymffurfio ag amodau / torri rheoliadau a.24, 25 Deddf Safonau Gofal 2000

ENGHREIFFTIAU O YMDDYGIADAU	ENGHREIFFTIAU O DROSEDDAU POSIBL / DEDDFWRIAETH BERTHNASOL
Amharu, neu waethygu heb eisiau iechyd corfforol neu feddyliol; amharu ar ddatblygiad corfforol, meddyliol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiad	Esgeuluso bwriadol neu gam-drin unigolyn gyda diffyg gallu meddyliol a.44 MCA 2005 neu o glaf a.127 Deddf Iechyd Meddwl 1983; methiant i gydymffurfio ag amodau / torri rheoliadau a.24, 25 Deddf Safonau Gofal 2000
Gweithredoedd yn arwain at farwolaeth	Llofruddiaeth; dynladdiad; dynladdiad corfforaethol; achosi neu ganiatáu marwolaeth unigolyn agored i niwed mewn lleoliad domestig a.5 Deddf Trais Domestig, Dioddefwyr a Throsedd 2004; cynorthwyo ac annog hunanladdiad a.2 Deddf Hunanladdiad 1961; methiant i gydymffurfio ag amodau / torri rheoliadau a.24, 25 Deddf Safonau Gofal 2000

Gellir cael rhagor o gopïau o'r daflen hon gan:

CPS Communication Division
Rose Court
2 Southwark Bridge
Llundain SE1 9HS

Ffôn 020 335 70913
E-bost publicity.branch@cps.gsi.gov.uk

Argraffwyd gan Blackburns of Bolton
Ffôn 01204 532121

Cyhoeddwyd Hydref 2009